

SL(5)596 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Mae Rheoliadau 2003 yn nodi'r nifer leiaf o sesiynau hanner diwrnod y mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir eu cynnal o fewn blwyddyn ysgol. Y nifer leiaf yw 380 o sesiynau (190 o ddiwrnodau).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 mewn dwy ffordd.

- 1) Caniatáu i ysgolion yng Nghonwy, Sir Benfro a Phowys, a agorodd am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn ysgol 2019-2020 gynnal o leiaf 370 o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-2021 yn lle o leiaf 380 o sesiynau
- 2) Caniatáu i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio er mwyn galluogi ysgolion i fod ar agor i bob dysgwr yn dilyn gostyngiad mewn gweithrediadau o ganlyniad i fynychder a throsglwyddiad y coronafeirws. Byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn ystod pythefnos cyntaf blwyddyn ysgol 2020-2021.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag "*awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*". Anfonwyd llythyr at gyfarwyddwyr awdurdodau lleol ar 29 Gorffennaf 2020 yn nodi'r bwriad, a "*gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb gan nodi unrhyw bryderon.*" Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro a wnaeth awdurdodau lleol ymateb ag unrhyw bryderon ai peidio.

Daeth Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("Rheoliadau 2019") i rym ar 1 Medi 2019, gan ganiatáu un diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol i ysgolion ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros wyth wythnos ar y dull polisi, a chafwyd 899 o ymatebion. Yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth



Cymru mewn perthynas â Rheoliadau 2019, nodwyd bod cynulleidfau eang o randdeiliaid allweddol wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad *"gan gynnwys penaethiaid, ysgolion, consortia rhanbarthol, undebau athrawon, awdurdodau lleol ac Estyn. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol."*

O ystyried nifer yr ymatebion a'r ystod o randdeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â hwy mewn perthynas â Rheoliadau 2019, ceisir eglurhad ynghylch pam na ymgynghorwyd ag ystod ehangach o randdeiliaid mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Byddai'n ddefnyddiol dysgu a wnaeth y rhai yr ymgynghorwyd â hwy leisio unrhyw bryderon ai peidio, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol lle bydd ysgolion ar gau am wythnos ychwanegol, lle y bydd angen i deuluoedd roi trefniadau gofal plant ar waith am wythnos y tu allan i'r cyfnod gwyliau ysgol arferol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu ymhellach y cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a ganfu y gallai *"egwyl hanner tymor estynedig a dau ddiwrnod cynllunio a pharatoi ar ddechrau'r tymor effeithio'n andwyol ar grwpiau difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tldi neu'r rheini y mae eu hincwm yn ddibynnol ar yr oriau gwirioneddol a weithiwyd ei chael hi'n anodd darparu gofal plant am y dyddiau ychwanegol hynny."*

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (2011/1064)? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i liniaru'r effaith ar y grwpiau a'r teuluoedd a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhai y byddai egwyl hanner tymor estynedig yn effeithio'n andwyol arnynt?

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad mewn perthynas â'r pwynt i gyflwyno adroddiad arno.

